Rhif: **WG23092**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Dadansoddiad o'r ymgynghoriad ar Reoliadau drafft Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014 a chanllawiau cysylltiedig

Dyddiad cyhoeddi: **Hydref 2014**

# Dadansoddiad o'r ymgynghoriad ar Reoliadau drafft Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014 a chanllawiau cysylltiedig

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol, pwyllgorau rheoli ac athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion, a phartïon eraill a chanddynt fuddiant. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar reoliadau a chanllawiau newydd ar gyfer pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Lles Disgyblion<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost PRURegulationsConsultation@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007<br>http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/1069/contents/made/welsh<br><br>*Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 47/2006 (2006)<br>http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy |

ISBN digidol 978 1 4734 2148 6
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23092

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Rhestr o ymatebwyr | 2 |
| 3. | Materion allweddol | 3 |
| 4. | Crynodeb o’r ymatebion i'r ymgynghoriad (fersiwn oedolion) | 3 |
| 5. | Crynodeb o’r ymatebion i'r ymgynghoriad (fersiwn plant a phobl ifanc) | 12 |

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer ymgynghori o 31 Mawrth 2014 hyd 23 Mehefin 2014 ar Reoliadau drafft: Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati.) (Cymru) 2014 a'r canllawiau cysylltiedig.

Diben yr ymgynghoriad oedd canfod barn ymatebwyr ar Reoliadau drafft Llywodraeth Cymru am gyfansoddiad a swyddogaethau pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion, y gweithdrefnau ar gyfer gweithredu pwyllgorau rheoli ac am y canllawiau statudol drafft cysylltiedig.

Gofynnwyd pum cwestiwn i ymatebwyr a oedd yn ymwneud â darpariaethau penodol yn y Rheoliadau a rhoddwyd cyfle iddynt ymdrin ag unrhyw faterion cysylltiedig nad ymdriniwyd â hwy yn benodol gennym. Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr nodi a oeddent eisiau cadw eu sylwadau'n gyfrinachol. Roedd fersiwn ar wahân o'r ymgynghoriad ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc.

Derbyniwyd cyfanswm o 16 o ymatebion ar gyfer fersiwn yr ymgynghoriad a oedd ar gyfer oedolion, a derbyniwyd un ymateb i'r fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc. Rhestrir yr ymatebwyr yn y tabl isod.

## 2. Rhestr o ymatebwyr

| Rhif | Sefydliad |
|---|---|
| 1 | SNAP Cymru |
| 2 | Cyngor Sir Powys |
| 3 | Uned Cyfeirio Disgyblion Portffolio Sir y Fflint |
| 4 | Hyfforddiant ACT |
| 5 | Estyn |
| 6 | Awdurdod lleol (a oedd eisiau aros yn ddienw) |
| 7 | Undeb Cenedlaethol yr Athrawon |
| 8 | Uned Cyfeirio Disgyblion Bryn y Deryn |
| 9 | Dr Liz Camino |
| 10 | Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen |
| 11 | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| 12 | Comisiynydd Plant Cymru |
| 13 | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau Cymru |
| 14 | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau |
| 15 | Gwasanaeth Gwella Ysgolion Bro Morgannwg |
| 16 | UCAC |
| 17 | Cyngor Sir Powys (fersiwn plant a phobl ifanc) |

Dim ond un ymatebydd a ddewisodd gadw ei ymateb yn gyfrinachol. Nid oedd pob ymatebydd wedi ateb y cwestiynau'n uniongyrchol; dewisodd rhai i beidio ag ateb cwestiwn penodol ac anfonodd eraill grynodeb o'u safbwyntiau yn lle defnyddio'r ffurflen ar y we. Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymu

newidiadau a oedd y tu hwnt i gwmpas yr ymarfer hwn, er enghraifft, o ran hyfforddiant aelodau pwyllgorau rheoli a statws Unedau Cyfeirio Disgyblion eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rhai a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad.

## 3. Materion allweddol

Yn gyffredinol cafwyd cytundeb ar yr holl gynigion yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, daeth un mater i'r amlwg sy'n cyfiawnhau diwygio'r canllawiau drafft ym marn swyddogion. Ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau drafft.

**Cyfranogiad disgyblion** – Tra bod y canllawiau drafft "yn argymell y dylai'r pwyllgor rheoli annog cyfranogiad disgyblion yn y pwyllgor", bu galw i gryfhau'r rhan hon o'r canllawiau gan y Comisiynydd Plant. Fodd bynnag, nododd yr undeb athrawon, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT), y dylid bod yn ofalus mewn perthynas â'r canllawiau drafft, gan gyfeirio at "yr angen i gael cyfrinachedd, a'r ffaith bod disgyblion a leolir mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion yn agored i niwed." Galwodd NASUWT am ddiddymu'r argymhelliad o'r canllawiau, ac am ddatblygu atodiad sy'n nodi ffyrdd clir a diogel o sicrhau bod safbwyntiau dysgwyr yn cael eu hystyried fel rhan o broses gwneud penderfyniadau pwyllgorau rheoli.

Ar ôl ystyried yr ymatebion hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r canllawiau drafft fel y mae ar hyn o bryd, ond bydd yn eu cryfhau er mwyn rhoi gwybodaeth a chymorth ychwanegol i bwyllgorau rheoli ynglŷn â sut y gallant ymgysylltu â disgyblion yn y broses o wneud penderfyniadau.

## 4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (fersiwn oedolion)

Mae'r adran hon yn crynhoi ac yn dadansoddi'r ymatebion i bob un o gwestiynau'r ddogfen ymgynghori.

### 4.1 Cwestiwn 1 - Ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau o ran aelodaeth arfaethedig y pwyllgorau rheoli (fel y nodir yn adran 2 o'r canllawiau statudol drafft)?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | **4** | **Nac ydw** | **7** | **Wn i ddim** | **2** |

Ni ragwelwyd unrhyw anawsterau o ran aelodaeth arfaethedig y pwyllgorau rheoli gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Roedd dau yn ansicr. Ni atebwyd y cwestiwn yn uniongyrchol gan dri ymatebydd.

Gwnaeth Uned Cyfeirio Disgyblion Portffolio Sir y Fflint sylw, "*Ni ragwelir unrhyw broblemau…Caiff ceisiadau am safbwyntiau Pobl Ifanc eu gwneud gan gynrychiolydd rhieni sy'n mynychu cyfarfodydd cyngor y myfyrwyr. Gobeithir y bydd pobl ifanc yn cael eu hysbrydoli i gyfrannu mewn ffordd fwy gweithredol yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol."*

Cytunodd Hyfforddiant ACT fod yr amryw gategorïau aelodaeth yn ymddangos yn synhwyrol ac yn briodol. Roeddent yn cydnabod y dylid gwneud amryw drefniadau er mwyn i safbwyntiau disgyblion gael eu cyfathrebu'n rheolaidd i'r pwyllgor rheoli.

Gwnaeth y Comisiynydd Plant sylw,*"mai ychydig iawn o ystyriaeth sydd o fewn y canllawiau drafft o ran gwrando a chynnwys plant a phobl ifanc mewn ffordd effeithiol ym mhrosesau pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion."* Mae'r Comisiynydd yn gofyn i'r maes hwn gael ei gryfhau.

[Mae sylw Llywodraeth Cymru isod hefyd yn ystyried sylwadau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â disgyblion a wnaed gan NASUWT mewn ymateb i Gwestiwn 6, a'r cais a nodwyd yn ymateb y person ifanc o ran y dylai pwyllgorau rheoli wrando ar safbwyntiau pobl ifanc]

***Llywodraeth Cymru: Mae paragraff 2.7.1 o'r canllawiau drafft yn argymell y dylai pwyllgorau rheoli annog cyfranogiad disgyblion, er mwyn i safbwyntiau dysgwyr gael eu cynrychioli yn y broses o wneud penderfyniadau. Serch hynny, byddwn yn cryfhau'r canllawiau er mwyn cefnogi pwyllgorau rheoli ac er mwyn gwneud y broses o ymgynghori â disgyblion yn fwy eglur. Byddwn hefyd yn adolygu'r mater hwn.***

Gwnaeth Estyn sylw, "*Mae'r flaenoriaeth…o benodi aelodau cymuned a leolir mewn ysgolion i bwyllgorau rheoli yn briodol. Fodd bynnag, byddai penodi aelodau'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac aelodau gwasanaethau cymdeithasol plant yn cryfhau pwyllgorau rheoli. Er bod hyn ymhlyg yn adran 2.4.1 sy'n ymwneud â chyfarwyddyd ar benodi aelodau o awdurdodau lleol, gellid tynnu sylw at y gwasanaethau hyn fel rhai priodol o ganlyniad i'w gwybodaeth broffesiynol berthnasol a'u profiad."*

***Llywodraeth Cymru: Mae paragraff 2.5.1 o'r canllawiau drafft yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol benodi o wasanaethau lle mae nifer uchel o bobl yn defnyddio'r Uned Cyfeirio Disgyblion, e.e. plant sy'n derbyn gofal.***
***Byddwn yn diwygio'r canllawiau i gynnwys cyfeiriadau at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed fel enghraifft arall o aelod cymuned.***

Roedd gan SNAP Cymru amheuon ynglŷn ag aelodaeth arfaethedig pwyllgorau rheoli, gan awgrymu nad oedd yn debygol y byddai cynrychiolaeth gywir o'r grwpiau defnyddwyr a fyddai'n gallu ac yn fodlon ymuno â strwythur sy'n seiliedig iawn ar awdurdod. Yn lle, roedd SNAP Cymru'n teimlo y byddai cael Swyddog Annibynnol ar gyfer Cyfranogiad Teuluoedd a fyddai'n casglu barnau ac yn cynorthwyo cyfranogiad yn ffordd well o gynnwys safbwyntiau gwirioneddol y teuluoedd hyn.

***Llywodraeth Cymru: Nid yw Swyddog Annibynnol ar gyfer Cyfranogiad Teuluoedd yn swyddogaeth a gydnabyddir yn genedlaethol, ac felly ni fyddai'n ymarferol ei defnyddio fel enghraifft o aelod cymuned.***

Roedd NUT Cymru yn teimlo y gallai'r ffordd yr oedd aelodaeth yn cael ei hawgrymu yn y ddeddfwriaeth greu'r posibilrwydd o orgynrychioli mathau penodol o aelodau ar y pwyllgor drwy'r swyddogaeth aelod cymuned. O ystyried mai un o swyddogaethau'r pwyllgor yw arfarnu staff, yn ogystal â'r tebygolrwydd y byddai arfarniadau staff yn chwarae rhan mewn trafodaethau am dâl yn y dyfodol oherwydd strwythur cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad, roedd NUT Cymru yn teimlo bod y syniad o gael pwyllgor a chanddo or-gynrychiolaeth o unigolion heb statws athro cymwysedig "*yn peri cryn ofid*".

Roedd NASUWT Cymru yn pryderu y gallai'r Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol drafft cysylltiedig, fel y'u lluniwyd, arwain at sefydlu pwyllgorau rheoli a fyddai'n eithrio aelodau o staff nad ydynt yn athrawon â gofal, gan osgoi unrhyw broses ddemocrataidd ar gyfer dewis aelod o staff.

Mae NASUWT o'r farn y dylid diwygio'r Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol drafft cysylltiedig er mwyn sicrhau:

• bod yr athro â gofal yn aelod ex officio o'r pwyllgor rheoli;
• bod yr athro â gofal yn gallu dewis peidio ag ymgymryd â'r swydd ar y pwyllgor rheoli;
• y dylid cynnwys o leiaf un lle ar bwyllgor rheoli ar gyfer cynrychiolydd staff addysgu (ac eithrio'r athro â gofal) o bob Uned Cyfeirio Disgyblion, lle mae'r Uned yn gweithredu ar wahân neu ar y cyd;
• y dylid cynnwys o leiaf un lle ar bwyllgor rheoli ar gyfer cynrychiolydd staff nad ydynt yn addysgu neu staff cymorth ar gyfer Uned Cyfeirio Disgyblion, pan mae'r Uned yn gweithredu ar wahân neu ar y cyd.

***Llywodraeth Cymru: Mae paragraff 2.5.2 yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol geisio penodi cynrychiolwyr o ysgolion lleol fel aelodau cymuned yn gyntaf, a gallai hyn, felly, olygu cynnydd yn nifer y staff addysgu ar y pwyllgor rheoli.***

***O ystyried y cydbwysedd o blaid aelodau cymuned a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, gallai mabwysiadu'r strwythur a awgrymwyd gan NASUWT fod yn anodd i Unedau Cyfeirio Disgyblion, gan fod llawer ohonynt yn fach a chanddynt nifer bach o athrawon a staff. Hefyd, pan mae pwyllgor rheoli yn cwmpasu nifer o Unedau Cyfeirio Disgyblion (Uned portffolio) mae'n bosibl y byddai mabwysiadu'r strwythur staffio a gynigiwyd gan NASUWT yn golygu y byddai cyfanswm aelodaeth y pwyllgor rheoli llawer yn fwy na'r uchafswm cyfreithiol o 20.***

Hefyd, roedd gan NASUWT amheuon ynglŷn â'r categori 'aelodau nawdd' ac nid oedd yn teimlo bod hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion ac ethos addysg y wladwriaeth. Roedd yr Undeb yn pryderu y byddai'r ddeddfwriaeth, fel y'i lluniwyd, yn cynnig cyfle i'r rhai sy'n gyfoethog, boed y rheini'n unigolion neu'n

gwmnïau, gael lle ar bwyllgorau rheoli er mwyn hyrwyddo naill ai eu hunain neu eu cynnyrch.

***Llywodraeth Cymru: Mae'r rheoliadau drafft yn ceisio cynnig strwythur i bwyllgorau rheoli sy'n debyg i'r strwythur sydd gan gyrff llywodraethol. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth i gefnogi honiad NASUWT y gallai'r ddeddfwriaeth, fel y'i drafftiwyd, gynnig cyfle i'r rhai sy'n gyfoethog gael lle ar bwyllgorau rheoli i hyrwyddo eu hunain neu eu cynnyrch.***
***Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa.***

### 4.2 Cwestiwn 2 – Ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau o ran dirprwyo swyddogaethau penodol i bwyllgorau rheoli gan awdurdodau lleol?

| Ydw | 5 | Nac ydw | 8 | Wn i ddim | 0 |
|---|---|---|---|---|---|

Roedd lleiafrif bach nad oeddent yn rhagweld unrhyw anawsterau o ran rhai dyletswyddau'n cael eu dirprwyo i bwyllgorau rheoli gan awdurdodau lleol. Ni atebwyd y cwestiwn yn uniongyrchol gan dri ymatebydd.

Roedd NASUWT Cymru yn teimlo bod y rheoliadau drafft a'r canllawiau cysylltiedig yn ddigon eglur o ran pa swyddogaethau y gellir eu dirprwyo i bwyllgor rheoli gan awdurdod lleol.

Cydnabu Estyn bod angen i aelodau pwyllgorau rheoli fod yn wybodus er mwyn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau a'u swyddogaethau mewn ffordd effeithiol ac y byddai'r trefniadau ar gyfer y cyfrifoldeb dirprwyedig a amlinellwyd yn y canllawiau yn gwneud trefniadau ar gyfer rheolaeth linell a llywodraethu'r Unedau Cyfeirio Disgyblion yn fwy cadarn. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, roedd Estyn o'r farn y dylid sicrhau bod lefel addas o hyfforddiant a chyngor ar gael o ran cyflawni'r cyfrifoldebau a ddirprwywyd iddynt mewn ffordd effeithiol.

***Llywodraeth Cymru: Mae hyfforddiant a chyngor ar gyfer aelodau pwyllgorau rheoli y tu hwnt i'r hyn a gwmpesir gan y rheoliadau a'r canllawiau hyn. Fodd bynnag, byddwn yn archwilio ar wahân er mwyn canfod p'un a allai aelodau pwyllgorau rheoli gael mynediad at elfennau o hyfforddiant llywodraethwyr ysgolion.***

Awgrymodd Estyn y dylid pennu llinellau atebolrwydd clir o ran darparu a gweithredu polisïau ar gyfer hybu lles disgyblion.

***Llywodraeth Cymru: Wrth amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgor rheoli, mae'r canllawiau yn nodi "Fel rhan o'u cyfrifoldeb i reoli Unedau Cyfeirio Disgyblion yn dda, mae gan bwyllgorau rheoli ddyletswydd i hybu lles disgyblion." Pwyllgorau rheoli unigol byddai'n penderfynu sut y dylid cyflawni'r swyddogaeth hon.***

Nododd Cyngor Sir Powys y bydd gan bwyllgorau rheoli gyfrifoldeb statudol ar y cyd ar gyfer rhai swyddogaethau, megis penderfynu pa gwricwlwm y dylid ei gynnig, ond na fydd ganddynt gyllideb ddirprwyedig na rheolaeth staff ddirprwyedig. Gallai hyn fod yn broblem.

***Llywodraeth Cymru: Nid yw'n hollol glir o'r sylw pam y gallai hyn fod yn broblem. Mae paragraff 5.1.4 o'r canllawiau drafft yn nodi "Mewn achosion lle nad yw pwerau neu ddyletswyddau yn ymwneud â chynnal Uned Cyfeirio Disgyblion wedi'u dirprwyo…yn ffurfiol i'r pwyllgor rheoli mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn gryf y dylid gofyn i'r pwyllgor roi cyngor i'w awdurdod lleol ar benderfyniadau yn ymwneud â materion o'r fath." Dylid nodi hefyd y bydd staff yr awdurdod lleol yn cael eu cynrychioli ar y pwyllgor rheoli.***

### 4.3 Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno na ddylai rhai swyddogaethau penodol gael eu dirprwyo gan awdurdodau lleol i bwyllgorau rheoli (fel y nodir ym mharagraff 4.1.2 o'r canllawiau statudol drafft)?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | **12** | **Nac ydw** | **0** | **Wn i ddim** | **1** |

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn cytuno na ddylai awdurdodau lleol ddirprwyo swyddogaethau penodol i bwyllgorau rheoli, fel y nodir yn y canllawiau statudol drafft. Roedd un yn ansicr. Ni atebwyd y cwestiwn yn uniongyrchol gan dri ymatebydd.

Gwnaeth Uned Cyfeirio Disgyblion Portffolio Sir y Fflint sylw, "*Dylai'r Pwyllgor Rheoli gael swyddogaethau monitro a goruchwylio yn unig, er mwyn sicrhau bod swyddogaethau/polisïau'r awdurdod lleol yn cael eu cyflawni i safon uchel. Dylai arfarnu (Rheoli Perfformiad) staff addysgu fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol.*"

***Llywodraeth Cymru: Drwy wneud pwyllgorau rheoli'n gyfrifol am arfarnu staff addysgu, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd gan bwyllgorau rheoli well ddealltwriaeth o ansawdd yr addysgu yn eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion ac y byddant mewn sefyllfa gryfach i godi safonau addysgu pan fo angen.***

Gwnaeth Cyngor Sir Powys gydnabod na all awdurdodau lleol ddirprwyo eu pwerau i ymyrryd mewn Uned Cyfeirio Disgyblion a'r cyfarwyddyd o ran Iechyd a Diogelwch. Roedd yr awdurdod yn teimlo, fodd bynnag, os mai'r nod yw gwneud y pwyllgor rheoli'n debyg i gorff llywodraethol, yna mae tri maes pwysig sy'n tanseilio'r nod hwn h.y. ni fydd ganddynt reolaeth o'r adeilad; ni fydd ganddynt reolaeth o benodi, gwahardd dros dro, neu ddiswyddo staff addysgu neu staff nad ydynt yn addysgu; ac ni fydd ganddynt gyllideb ddirprwyedig. Mae angen mwy o eglurder yn y canllawiau ynghylch pam na ddirprwywyd yr elfennau hyn hefyd.

Roedd NASUWT yn ystyried bod y rheoliadau drafft a'r canllawiau cysylltiedig yn ddigon eglur o ran y swyddogaethau na all awdurdod lleol eu dirprwyo i

bwyllgor rheoli.  Fodd bynnag mae NASUWT o’r farn y dylai'r gweithdrefnau ar gyfer penodi, gwahardd dros dro neu ddiswyddo staff sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion adlewyrchu darpariaethau Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, yn hytrach nag ymdrin â'r rhain o dan weithdrefnau corfforaethol sy'n berthnasol i staff awdurdodau lleol a gyflogir yn ganolog.

Er ei fod yn gytûn â'r canllawiau, awgrymodd SNAP Cymru y dylai'r awdurdod lleol gynnwys y pwyllgor rheoli neu gynrychiolydd/cynrychiolwyr y pwyllgor wrth benodi staff.

Cytunodd Estyn fod y canllawiau'n amlinellu lefelau priodol o gyfrifoldeb ar gyfer awdurdodau lleol, pwyllgorau rheoli a'r athro â gofal o ran darparu a gweithredu polisi iechyd a diogelwch.

***Llywodraeth Cymru:  Mae Paragraff 4.1.4 o'r canllawiau drafft yn nodi, “Mewn achosion lle nad yw pwerau neu ddyletswyddau yn ymwneud â chynnal Uned Cyfeirio Disgyblion wedi’u dirprwyo neu eu rhoi yn ffurfiol i’r pwyllgor rheoli, mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn gryf y dylid gofyn i’r pwyllgor roi cyngor i’w awdurdod lleol ar benderfyniadau yn ymwneud â materion o’r fath.”***

***Nid yw Uned Cyfeirio Disgyblion yn ysgol brif ffrwd nac yn ysgol arbennig.  Nod y ddeddfwriaeth a'r canllawiau yw gosod pwyllgorau rheoli ar delerau sy'n debyg i delerau cyrff llywodraethol, ond nid yr un peth â hwy.  Ni chwmpesir bob agwedd ar sut mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gweithredu yn y rheoliadau drafft, ac nid yw Llywodraeth Cymru'n teimlo y byddai'n briodol defnyddio'r rheoliadau hyn i gyflwyno newidiadau ar raddfa eang. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon.***

### 4.4 Cwestiwn 4 – Ydych chi’n cytuno na ddylai rhai swyddogaethau penodol gael eu dirprwyo gan bwyllgorau rheoli i is-bwyllgor, aelod, neu’r athro â gofal (fel y nodir ym mharagraff 7.1.2 o’r canllawiau statudol drafft)?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | **14** | **Nac ydw** | **0** | **Wn i ddim** | **0** |

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, ni atebwyd y cwestiwn yn uniongyrchol gan ddau ymatebydd.

Roedd Cyngor Sir Powys yn cefnogi'r rhestr arfaethedig o swyddogaethau yn llawn, fel y'u hamlinellir ym mharagraff 7.1.2.

Roedd NASUWT yn cytuno na ellir dirprwyo'r swyddogaethau a restrwyd i is-bwyllgor, aelod, na'r athro â gofal. Fodd bynnag, cwestiynodd yr Undeb p'un a ddylid cynnwys dirprwyo cyfrifoldeb am ddisgyblu disgyblion i unigolyn, ym mharagraff 7.1.3 o'r ddogfen canllawiau drafft, gan fod yr Undeb yn teimlo y gallai hyn awgrymu na all staff sy'n gweithio mewn Uned Cyfeirio Disgyblion

gosbi heb gymeradwyaeth y pwyllgor rheoli. Roedd yr Undeb yn teimlo y gallai sefyllfa o'r fath danseilio gallu'r staff i gynnal amgylchedd dysgu saff, trefnus a diogel o ddydd i ddydd.

***Llywodraeth Cymru: Mae paragraff 7.1.3 o'r canllawiau drafft yn nodi, "ni all y pwyllgor rheoli ddirprwyo cyfrifoldeb am ddisgyblu a gwahardd disgyblion i unigolyn." Mae'r paragraff yn ceisio sicrhau y caiff penderfyniadau ar y materion hyn eu gwneud gan o leiaf ddau aelod o'r pwyllgor.***

***Yng ngoleuni'r sylw uchod, byddwn yn diwygio'r canllawiau i ddweud 'ni all y pwyllgor rheoli ddirprwyo cyfrifoldeb <u>cyffredinol</u> am ddisgyblu a gwahardd disgyblion i un aelod o'r pwyllgor rheoli. Bydd gan staff sy'n gweithio mewn Uned Cyfeirio Disgyblion gyfrifoldeb dros gosbi, yn unol â pholisi rheoli ymddygiad yr Uned honno.'***

Cytunodd y Comisiynydd Plant na ddylai'r swyddogaethau a amlinellwyd yn 7.1.2 gael eu dirprwyo i fod yn gyfrifoldeb i is-bwyllgor, aelod na'r athro â gofal. Fodd bynnag, roedd ganddo bryderon ynglŷn â'r weithdrefn gynrychiolaeth yn hytrach na swyddogaeth Rheolwyr yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Dywedodd,*"Mae 7.1.1 yn ymwneud â dirprwyo rhai cyfrifoldebau i is-bwyllgor, aelod neu athro â gofal ond nid yw'n datgan yn glir pa swyddogaethau y gellir eu dirprwyo. …Hoffwn weld hyn yn cael ei ddiwygio i ganolbwyntio mwy ar ba swyddogaethau y gellir eu dirprwyo a pha rai na ellir eu dirprwyo i is-bwyllgorau, aelodau neu athrawon â gofal er mwyn hybu ac amddiffyn lles plant a phobl ifanc o fewn Unedau Cyfeirio Disgyblion."*

***Llywodraeth Cymru: Mae paragraff 4.1.1 o'r canllawiau drafft yn amlinellu swyddogaeth a chyfrifoldeb sylfaenol pwyllgorau rheoli. Mae adran 7 o'r canllawiau yn ceisio rhoi hyblygrwydd i bwyllgorau rheoli drwy fod yn ymwybodol o ba swyddogaethau y gellir eu dirprwyo i is-bwyllgorau.***

### 4.5 Cwestiwn 5 – Ydych chi'n credu bod canllawiau statudol drafft Rheoliadau Addysg (Uned Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014 yn eich helpu i ddehongli'r ddeddfwriaeth?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | **12** | **Nac ydw** | **0** | **Wn i ddim** | **2** |

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr fod y canllawiau drafft yn eu cynorthwyo i ddehongli'r ddeddfwriaeth. Roedd dau ymatebydd yn ansicr, ac ni ymatebwyd y cwestiwn yn uniongyrchol gan ddau ymatebydd.

Gwnaeth SNAP Cymru sylw ei bod yn,*"Ddogfen hir a gafodd ei hysgrifennu'n ofalus, ac fe fydd yn ddefnyddiol wrth wirio meysydd, yn glir iawn o ran swyddogaethau, ac yn amlinellu'r hyn y gellir ei wneud a'r hyn na ellir ei wneud."*

Barn Hyfforddiant ACT oedd *“Mae'r ddogfen a'i hatodiadau'n rhoi goleuni pellach ar lywodraethu a rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae'n hynod ddefnyddiol wrth ystyried a dehongli'r ddeddfwriaeth a ragwelir.”*

Gwnaeth y Comisiynydd Plant sylw,*“Mae'r canllawiau drafft yn rhoi goleuni pellach ar fecanwaith strwythurol y Rheoliadau Drafft. Fodd bynnag, byddwn yn hoffi gweld mwy o ganllawiau ynghylch sut y gall pwyllgorau gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r cylch gwaith o hybu ac amddiffyn lles plant a phobl ifanc. Er mwyn ategu hyn, hoffwn weld y canllawiau'n cael eu cysoni ag adnodd a llawlyfr Llywodraethwyr Cymru.”*

***Llywodraeth Cymru: Nod y canllawiau statudol yw esbonio'r rheoliadau, nid y ffordd y dylai'r pwyllgorau rheoli gyflawni eu swyddogaethau. Fel y crybwyllwyd eisoes mewn ymateb i sylwadau yn erbyn cwestiwn 2, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio ar wahân er mwyn canfod p'un a allai hyfforddiant llywodraethwyr ysgolion gael ei ddefnyddio gan aelodau pwyllgorau rheoli.***

Roedd Estyn o'r farn bod y canllawiau yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol a phwyllgorau rheoli. Fodd bynnag, mae'n credu bod angen mwy o wybodaeth ynghylch cyfrifoldebau dirprwyedig sy’n ymwneud â lles disgyblion.

Dywedodd Estyn, “*O dan y canllawiau arfaethedig mae rhai agweddau ar les, megis diogelwch y lleoliad ac arferion recriwtio diogel yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i’r awdurdod lleol.*

*Dirprwyir cyfrifoldeb am agweddau eraill ar les i'r pwyllgor rheoli. Mae lles yn cwmpasu rhan eang a hollbwysig o waith Uned Cyfeirio Disgyblion, a bydd angen hyfforddiant a chymorth ar y pwyllgor rheoli i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau addas ar waith.*

*Mae'n bwysig iawn cael eglurder o ran pwy sydd â chyfrifoldeb dros weithredu, monitro ac adrodd am ddigwyddiadau difrifol, defnyddio cosbau, defnyddio ymyriad corfforol a defnyddio seibiau / rhoi disgyblion ar wahân mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Nid yw hyn yn glir yn Atodiad D.”*

***Llywodraeth Cymru: Mae'r canllawiau drafft yn datgan bod gan bwyllgorau rheoli ddyletswydd i hyrwyddo lles disgyblion a chydlyniant cymunedol fel rhan o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu rheoli'n dda. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried sut y gellir ehangu'r canllawiau i gynnwys cyfeiriadau at ganllawiau a chyhoeddiadau eraill am ddiogelu a, lle'n briodol, gwybodaeth a chyngor o wefan Llywodraethwyr Cymru.***

**4.6 Cwestiwn 6: Gofynnwyd i ymatebwyr p'un a oedd ganddynt unrhyw faterion cysylltiedig nad ymdriniwyd â hwy yn benodol. Rhestrir rhai o'r rhain isod.**

Gwnaeth Uned Cyfeirio Disgyblion Bryn y Deryn sylw, "*Mae'r gweithdrefnau'n ymddangos yn glir. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn gweithredu fel llywodraethwyr ysgolion, ac fel arfer mae gan y rhain glerc penodedig sy'n pennu dyddiadau ayyb. a hyfforddiant i'r llywodraethwyr gan yr Awdurdod Lleol. Rhaid darparu'r cyfleusterau hyn i Bwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd neu byddant yn gweithio dan anfantais.*"

***Llywodraeth Cymru: Rhaid penodi clercod i'r pwyllgor rheoli, ac mae swyddogaethau'r clerc wedi eu hamlinellu ym mharagraff 5.2.4 o'r canllawiau drafft.***

Roedd Cyngor Sir Powys yn gwbl gefnogol i'r cynnig o sicrhau bod gan bob pwyllgor rheoli offeryn llywodraethu a nifer o gyfrifoldebau statudol. Roedd yr awdurdod yn teimlo bod y penderfyniad i wneud rheoliadau i reoli'r maes hwn yn amserol ac y byddai'n arwain at fwy o gysondeb.

Nododd NASUWT y dylid bod yn ofalus iawn mewn perthynas â'r argymhelliad yn y canllawiau drafft a oedd yn ymwneud â chynnwys cyfranogiad disgyblion yn y pwyllgor rheoli, o ystyried yr angen am gyfrinachedd a'r ffaith bod disgyblion mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion yn agored i niwed. Roedd NASUWT yn o'r farn y dylid diddymu paragraff 2.7.1 o adran 2 o'r canllawiau statudol drafft a datblygu atodiad mewn ymgynghoriad â'r undebau athrawon sy'n nodi ffyrdd clir, manwl gywir a diogel o sicrhau bod safbwyntiau dysgwyr yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar bwyllgorau rheoli.

[Mae sylw Llywodraeth Cymru isod yn ystyried sylwadau am ymgysylltu â disgyblion a wnaed gan y Comisiynydd Plant mewn ymateb i Gwestiwn 1, a'r cais a oedd yn rhan o ymateb y person ifanc ynglŷn â phwyllgorau rheoli yn gwrando ar safbwyntiau pobl ifanc.]

***Llywodraeth Cymru: Rydym o'r farn y dylid cadw paragraff 2.7.1 o'r canllawiau drafft, gan ei fod yn gosod cynsail pwysig o ran ymgysylltu â disgyblion sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ysgolion prif ffrwd. Er hynny, rydym yn cydnabod pwynt NASUWT a byddwn yn cryfhau'r canllawiau i gynorthwyo pwyllgorau rheoli ac i wneud y broses o ymgynghori â disgyblion yn fwy eglur. Byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn.***

Gwnaeth SNAP Cymru sylw,*"Mae'r cysyniad o bwyllgorau rheoli yn ddefnyddiol ond fel y nodir yn adroddiad ymchwil Prifysgol Caeredin: 'Gwerthuso darpariaeth addysg ar gyfer plant a phobl ifanc a addysgir y tu allan i'r lleoliad ysgol', mae'r adnoddau hyn yn amrywiol, ac mae'r amrywiaeth hon ar sail maint, diben a deiliadaeth, a'r angen i fod yn addas i'r diben ar gyfer y grŵp cyfredol, nid y grŵp cleient tybiannol. Gellid dadlau p'un a fydd pwyllgorau rheoli yn gallu ymateb i'r rhain yn ddigonol neu beidio. Mae'r gallu i ymateb yn gyflym ac mewn ffordd hyblyg i anghenion unigol ac i osod heriau unigol yn ffactor pwysig mewn llwyddiant unigol. Ni ddylai hyn arwain at grŵp sy'n canolbwyntio ar roi tic mewn blychau."*

***Llywodraeth Cymru:  Bydd gwneud penderfyniadau am arwain yr uned yn destun ar gyfer pwyllgorau rheoli, a byddai hyn yn cynnwys ymateb i anghenion unigol a gosod heriau unigol.  Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r trefniadau hyn.***

Gwnaeth y Comisiynydd Plant sylw, "*Mae tanategu ac ymgorffori'r CCUHP, felly, yn ofyniad hanfodol y dylid ei gynnwys yn benodol o fewn cyfansoddiad Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion*."

***Llywodraeth Cymru:  Byddwn yn diwygio'r canllawiau i adlewyrchu'r sylw hwn.***

## 5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (fersiwn plant a phobl ifanc)

Mae'r adran hon yn crynhoi ac yn dadansoddi'r ymatebion i bob un o gwestiynau'r ddogfen ymgynghori.

### 5.1 Cwestiwn 1 - Wyt ti'n meddwl y dylai rhieni/gofalwyr fod yn aelodau o'r pwyllgor rheoli?

| Ydw | 1 | Nac ydw | 0 | Ddim yn siŵr | 0 |
|---|---|---|---|---|---|

Yn ôl un sylw a wnaed, dylai disgyblion sy'n mynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion allu lleisio eu barn ynglŷn â pha rieni sy'n ymaelodi â'r pwyllgor rheoli, gan gynnwys eu rhieni eu hunain.

### 5.2 Cwestiwn 2 - Wyt ti'n cytuno y dylai'r pwyllgor rheoli fod yn gyfrifol am ddelio ag ymddygiad gwael?

| Ydw | 1 | Nac ydw | 0 | Ddim yn siŵr | 0 |
|---|---|---|---|---|---|

Roedd yr ymatebydd yn cytuno, cyhyd â bod Pwyllgorau Rheoli yn ystyried safbwyntiau pawb, yn enwedig disgyblion.

### 5.3 Cwestiwn 3 - Wyt ti'n cytuno y dylai'r pwyllgor rheoli ddelio ag unrhyw gwynion am beth sy'n cael ei addysgu yn yr uned cyfeirio disgyblion?

| Ydw | 1 | Nac ydw | 0 | Ddim yn siŵr | 0 |
|---|---|---|---|---|---|

Yn ôl y sylw a wnaed, mae'n bwysig bod Pwyllgorau Rheoli yn mynd i'r afael â chwynion sy'n ymwneud â'r hyn nad yw'n cael ei addysgu hefyd, h.y. ehangu cyfleoedd am gwricwlwm amgen.

## 5.4 Cwestiwn 4 - Wyt ti’n meddwl bod unrhyw beth arall y dylem feddwl amdano wrth wneud y rheolau hyn?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydw** | **1** | **Nac ydw** | **0** | **Ddim yn siŵr** | **0** |

Yn ôl y sylw a wnaed gan CYP, dylai Pwyllgorau Rheoli wrando ar safbwyntiau disgyblion a gweithredu yn unol â hynny. Dylai rhywun o'r Pwyllgor ganfod safbwyntiau disgyblion drwy ymweld â hwy yn rheolaidd.

***Llywodraeth Cymru: Mae'r sylwadau uchod yn adlewyrchu'r angen i bwyllgorau rheoli ymgysylltu â disgyblion. Gweler hefyd sylw Llywodraeth Cymru mewn ymateb i sylwadau eraill ar y mater hwn mewn perthynas â Chwestiwn 1 uchod.***